Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Santes Dwynwen

**Niwbwrch**
**Llanfairpwll**
**LL61 6TE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Santes Dwynwen

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Santes Dwynwen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Wirfoddol Yr Eglwys Yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 113 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 94 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 19 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 23.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 26.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 69.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/04/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/06/2024 |
| Dyma arolygiad cyntaf Ysgol Santes Dwynwen ers uno ysgolion cynradd yr ardal yn 2019. | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Santes Dwynwen yn gymuned gefnogol, sy'n hyrwyddo ethos gofalgar a chadarnhaol. Mae perthnasoedd gwaith cynnes yn bodoli rhwng disgyblion a staff, sy'n meithrin awyrgylch o ddysgu da a balchder o berthyn i deulu'r ysgol. Mae'r cymorth i hybu dysgu a lles disgyblion, a gallu'r disgyblion i ddefnyddio'r gefnogaeth hon, yn nodwedd gadarn o'r ysgol. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu agweddau cadarn at eu dysgu a'u lles.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol, sy'n hybu'r dysgu yn synhwyrol. Mae staff yn defnyddio'r amgylchedd dysgu mewnol yn gynhyrchiol i dargedu anghenion disgyblion yn fwriadus, ac mae'r cynllunio o ran gweithgareddau i hybu dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth o ran profiadau dysgu yn yr awyr agored mor effeithiol, yn enwedig i'r disgyblion ieuengaf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen a digidol pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig a'u rhifedd. Yn ogystal, nid yw ansawdd adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wybod beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu yn ddigon effeithiol.

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn ystyrlon a gofalgar ac yn cefnogi'r staff i sicrhau bod dysgu a lles disgyblion yn flaenoriaethau cyson. Mae hyn yn ganolog i'w weledigaeth gynhwysol. Mae'n gweithio'n ddiwyd gyda'r staff a'r llywodraethwyr i sicrhau bod yr ysgol yn gymuned ddysgu hapus sy'n hyrwyddo cyfleoedd cadarnhaol i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn cadw mewn cysylltiad agos â chymuned ehangach yr ysgol ac yn adeiladu ar y berthynas weithredol sy'n bodoli â rhieni. Er hynny, daeth yr arolygwyr â mater yn ymwneud â diogelwch safle'r ysgol i sylw arweinwyr yn ystod yr arolygiad.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn drwyadl gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso rheolaidd a chywrain. Mae gweithgareddau monitro yn arwain at flaenoriaethau gwella perthnasol, a chyfleoedd hyfforddi cynhwysfawr i staff ddatblygu eu medrau trwy ddysgu proffesiynol cytûn.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r pryder am ddiogelwch safle'r ysgol a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Cynllunio ar y cyd i wella medrau disgyblion, yn enwedig eu hysgrifennu estynedig a'u rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn targedu'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

A4 Gwella ansawdd a darpariaeth profiadau dysgu yn yr awyr agored, yn enwedig ar gyfer y disgyblion ieuengaf

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae medrau’r rhan fwyaf o ddisgyblion islaw’r lefel sy’n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni’n dda ar draws holl feysydd y cwricwlwm, ac mae llawer yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau siarad, gwrando, darllen a digidol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cyflawni’n fwriadus ac maent yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol, y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a’r rhai o aelwydydd ag incwm isel, yn manteisio ar bob agwedd o’r cwricwlwm yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd pwrpasol o’u mannau cychwyn.

Mae medrau gwrando a siarad llawer o ddisgyblion yn datblygu’n gyflym. Wrth iddynt symud o’r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2, maent yn magu hyder da ac yn ateb cwestiynau’n synhwyrol tra’n trafod tasgau gyda’u cyfoedion. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn trafod eu dewisiadau’n glir tra’n efelychu nodweddion llwyau caru. O Flwyddyn 3 ymlaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu geirfa ehangach yn y Gymraeg a’r Saesneg. Maent yn gwrando’n astud ar ei gilydd ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau sylwgar, fel myfyrio ar fywyd Dic Penderyn a’i rôl yn nherfysg Merthyr.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol wrth ddatblygu eu medrau darllen. Mae llawer o’r disgyblion ieuengaf yn dysgu seiniau llythrennau yn gyflym, ac erbyn Blwyddyn 2, mae cynnydd llawer ohonynt yn gadarn. Maent yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau ffoneg i roi cynnig ar eiriau anghyfarwydd . Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ddarllenwyr cymwys, ac maent wedi’u harfogi’n dda i fynd i’r afael ag amrywiaeth o wahanol destunau. Er enghraifft, maent yn ymchwilio’n fedrus a thrafod bywgraffiadau yr actifydd Martin Luther King a’r archeolegydd Howard Carter yn aeddfed.

Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu hysgrifennu o ystyried eu mannau cychwyn. Erbyn Blwyddyn 2, mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau ysgrifennu’n briodol, gan ddefnyddio atalnodi a gramadeg sylfaenol. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu’n foddhaol mewn arddulliau ysgrifennu gwahanol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn ysgrifennu ymsonau diddorol am fywyd Santes Dwynwen ar Ynys Llanddwyn. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn golygu eu gwaith yn addas ac yn defnyddio geirfa ac atalnodi mwy soffistigedig i wella eu drafftiau terfynol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ymestyn eu hysgrifennu yn ddigon effeithiol wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio egwyddorion a chysyniadau mathemategol yn effeithiol. Maent yn defnyddio rhifau yn hyderus ac yn casglu a chofnodi gwybodaeth a chanlyniadau mewn tablau a graffiau syml. Yn ogystal, maent yn arbrofi â chyfaint trwy lenwi a gwagio blychau o wahanol feintiau gyda cherrig mân, blociau a phridd. O Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau mathemategol cadarn. Mae disgyblion hŷn yn datblygu strategaethau effeithiol i gymharu a chyfatebu ffracsiynau a degolion. Defnyddiant ddata yn briodol a'i gyflwyno'n effeithiol mewn amrywiol ffurfiau. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio graffiau llinell yn bwrpasol i gofnodi data wythnosol ar eu cynnydd mewn profion. Fodd bynnag, nid yw’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso’u medrau rhifedd yn ddigon cyson mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau digidol da ac maent yn eu defnyddio ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion iau yn rhaglennu robotau electronig i ddilyn taith egino planhigyn. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn trin a thrafod testun yn effeithiol, fel creu erthyglau papur newydd ar ddarganfod beddrod Tutankhamun. Yn ogystal, maent yn paratoi cyflwyniadau ac animeiddiadau difyr ar arwyr a dihirod ac yn defnyddio cronfeydd data a thaenlenni yn ddeallus i gofnodi a chymharu recordiau byd athletwyr gwahanol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau artistig yn dda. Mae’r disgyblion ieuengaf yn creu celf mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Er enghraifft, o’r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2, maent yn cydweithio’n effeithiol i efelychu gwaith celf nifer o arlunwyr Cymreig. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu eu medrau cerddorol, er enghraifft wrth ymarfer rhythmau Kodaly.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob disgybl yn teimlo’n ddiogel o fewn naws deuluol a gofalgar yr ysgol. Maent yn ystyried eu bod yn cael eu trin â pharch a bod eu cyfraniad i fywyd yr ysgol yn cael ei werthfawrogi’n fawr. Maent yn gwybod at bwy i droi am gyngor os oes unrhyw beth yn eu poeni ac maent yn hyderus bod staff yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion o fewn gwersi, gweithgareddau ac amseroedd egwyl yn gadarn dda. Maent yn cydweithio’n gydwybodol a chytûn â’u cymheiriaid. Mae’r rhan fwyaf yn gwrtais, yn ymwybodol o anghenion eu cyfoedion ac yn dangos parch a gofal amlwg tuag at oedolion cyfarwydd ac ymwelwyr. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando’n astud ar gyflwyniadau a chyfarwyddiadau gan staff ac yn canolbwyntio’n dda wrth ymroi i’w tasgau. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion bob tro’n ymwybodol o’r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder at eu pentref a’u hysgol, ac mae llawer yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a threftadaeth Cymru. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at les ac agweddau dysgu'r disgyblion, ac mae cyfraniadau'r disgyblion yn ganolog i ethos a gweledigaeth yr ysgol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu’n ddeallus am unigrywiaeth ac mae eu sylwadau’n cael eu hadlewyrchu’n llwyddiannus

ar arddangosfeydd lles yr ysgol. Mae hyn yn ysgogi disgyblion i ddeall bod eu perthnasoedd yn hollbwysig i'w datblygiad fel unigolion cyflawn.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau datblygu technegau meddwl perthnasol i’w helpu i lwyddo a dyfalbarhau wrth ddatrys problemau cyn gofyn am gymorth. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dechrau datblygu dygnwch a hyder wrth ddyfalbarhau â'u gwaith yn eu dosbarthiadau ac wrth ymroi i ddyletswyddau penodol fel monitro’r ddarpariaeth o lefrith a ffrwyth yn y dosbarthiadau ieuengaf. Yn ogystal, mae presenoldeb cyffredinol disgyblion yn dda, ac yn debyg i’r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda at yr hyn maent yn ei ddysgu ac yn dylanwadu’n gadarnhaol ar themâu'r dosbarthiadau. Er enghraifft, maent yn manteisio ar y cyfle i rannu eu diddordebau a'u dyheadau wrth gyfrannu i fapiau meddwl sy’n ymwneud â themâu’r gwahanol dymhorau. O ganlyniad, maent yn datblygu'r gallu i wneud penderfyniadau a myfyrio ar eu dysgu, fel cyfranogi'n dda yn eu heriau yn annibynnol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn deall effaith fanteisiol ymarfer corff ar eu hiechyd, fel dringo ar gyfarpar antur. Maent yn cyfranogi’n frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau corfforol, sydd wedi eu cynllunio’n bwrpasol i ddatblygu unigolion iach a hyderus. Yn ogystal, mae gan ddisgyblion wybodaeth gadarn am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn bod yn ddiogel ar-lein.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n ddinasyddion moesegol a gwybodus trwy eu hymwybyddiaeth o degwch a chydraddoldeb. Trwy eu hymchwil a’u trafodaethau synhwyrol, maent yn dechrau deall bod parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel rhan o gymdeithas amrywiol yn bwysig. Enghraifft dda o hyn yw’r modd y maent yn cyflwyno hanes a gweithredoedd y pennaeth Betty Campbell ac yn defnyddio’r wybodaeth i ystyried yr hyn sy’n cyfrannu at gymdeithas sy’n parchu cydraddoldeb.

Mae lles ac agweddau at ddysgu'r disgyblion yn gadarn ac yn cyfrannu’n dda i’w hymrwymiad clir i ddatblygu eu medrau creadigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyfranwyr brwdfrydig wrth ddatblygu eu medrau artistig. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn fentrus tra'n arbrofi’n llwyddiannus ag amrywiaeth o gyfryngau, fel creu collage ar dirlun Ynys Môn ac efelychu mynyddoedd Eryri gyda phasteli. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau fel cyfranwyr uchelgeisiol a chreadigol yn effeithiol. Maent yn cyfrannu’n gydwybodol i'w hymdrechion i lwyddo mewn byd busnes, trwy greu a gwerthu cardiau a threfnu arwerthiant o’u nwyddau ar safle’r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, yn barod i ymgymryd â rolau arweiniol a chyfrifol. Maent yn chwarae rhan gynhyrchiol ym mywyd a gwaith yr ysgol fel aelodau o’r cyngor ysgol a’r cyngor eco. Er enghraifft, mae aelodau’r cynghorau yn annog disgyblion i fwyta ffrwythau’n ddyddiol ac yfed dŵr yn rheolaidd.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau buddiol yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, sy'n cefnogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu pwrpasol sy'n hyrwyddo diddordeb disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r ardal leol fel archifdy i astudio hanes faciwîs Ynys Môn ac oriel yr ynys. O ganlyniad, mae disgyblion yn awyddus i rannu eu profiadau ag eraill am yr ardal leol, eu pentref a thu hwnt.

Mae athrawon yn annog disgyblion i rannu eu barn yn llwyddiannus am yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Maent yn croesawu syniadau'r disgyblion ar ddechrau ac yn ystod themâu yn ddeallus. Maent yn gwrando'n ofalus ar safbwyntiau disgyblion wrth gynllunio'n addas i wella eu medrau, gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn defnyddio'u hawgrymiadau yn effeithiol wrth baratoi gweithgareddau; er enghraifft, mae'r disgyblion yn adeiladu modelau o'r Titanic ar ôl astudio hanes llongddrylliad y Royal Charter ar greigiau Moelfre.

Mae'r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth ofalus i nifer o ddigwyddiadau byd-eang. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn trafod eu syniadau'n synhwyrol er mwyn newid safbwyntiau eraill, fel astudio neges, dygnwch a bywyd Rosa Parks. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sy'n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol Cymru a Chymreictod yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i gyfleu hanes Owain Glyndŵr trwy greu baneri a thariannau sydd wedi'u seilio ar werthoedd personol disgyblion. Yn ogystal, mae'r holl staff yn hyrwyddo manteision dysgu a siarad Cymraeg yn llwyddiannus gyda'r disgyblion. Mae'r staff yn cymell disgyblion i gyfathrebu ac ymateb yn y Gymraeg yn rheolaidd.

Caiff disgyblion brofiadau da i ddatblygu eu medrau gwrando, siarad, darllen a chymwyseddau digidol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cynnig eu barnau ar Gymru gyfoes a dyfodol y Gymraeg ar ffilm fel rhan o brosiect y dalgylch. Mae athrawon yn sicrhau bod trefniadau addas i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig a rhifedd disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio ar y cyd yn gwbl effeithiol ac, o'r herwydd, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth gymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

Ar y cyfan, mae medrau addysgu'r staff yn dda. Yn y sesiynau mwyaf llewyrchus, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn herio disgyblion yn gyson i gyflawni'n uchel. Lle mae'r disgwyliadau'n uchel, mae rhediad a difyrwch y gweithgareddau yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn effeithiol ac yn eu hysgogi i ddyfalbarhau â'u gwaith. Fodd bynnag, mae cyflwyniadau i weithgareddau dysgu yn araf ar adegau, sy'n llesteirio brwdfrydedd ac awydd disgyblion i ymroi i'w gweithgareddau'n brydlon.

Mae'r berthynas waith rhwng staff a disgyblion yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda. Yn yr arferion gorau, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn addasu'r gweithgareddau dysgu yn effeithiol i ymateb i anghenion disgyblion, gan gynnwys y disgyblion sydd angen cymorth â'u gwaith. Mae cymorthyddion yn darparu cefnogaeth dda i'r disgyblion, gan wybod pryd i ymyrryd a phryd i ganiatáu iddynt gwblhau eu gwaith yn annibynnol.

Mae athrawon yn defnyddio gweithgareddau asesu ac arferion priodol i ymateb i waith disgyblion yn ystod gwersi. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae llawer o athrawon yn rhannu adborth yn ddeallus ar lafar i herio ac asesu ansawdd dysgu'r disgyblion. Mae ymatebion i waith disgyblion felly'n targedu unrhyw ddifaterwch neu waith anghywir yn brydlon. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ar draws yr ysgol yn amrywio gormod. Mae athrawon yn tueddu i ysgrifennu'r un adborth yn aml, heb gael digon o effaith ar ddarnau gwaith nesaf y disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu buddiol a diddorol lle defnyddir ardaloedd penodol yn bwrpasol i gefnogi dysgu'r disgyblion y tu mewn i'r adeilad. O ganlyniad, mae staff yn creu arddangosfeydd ac ardaloedd dysgu defnyddiol i gefnogi disgyblion. Mae hyn yn creu cyfleoedd da i ysgogi disgyblion i wneud dewisiadau am beth i'w ddysgu a sut. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio'r cyfarpar cerddorol a'r theatrau pypedau yn fwriadus i ddarparu profiadau dysgu ysgogol ac i ddatblygu medrau creadigol ac artistig y disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn defnyddio'r ardaloedd awyr agored sydd ar gael yn briodol. Fodd bynnag, mae diffyg darpariaeth a phrofiadau dysgu ysgogol a rheolaidd yn yr awyr agored, yn enwedig ar gyfer y disgyblion ieuengaf.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a hapus sy'n hyrwyddo ymddygiad da a chwrteisi gan y disgyblion. Mae'r holl staff yn ymrwymo i sicrhau bod gwerthoedd, ynghyd â lles emosiynol disgyblion a gofal twymgalon, yn allweddol i'w gwaith.

Mae'r perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng staff a disgyblion ac ymhlith y disgyblion yn nodwedd gadarn o'r ysgol. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion, eu cefndiroedd, a'r gymuned leol yn dda dros ben. Maent yn rhoi blaenoriaeth i les disgyblion ac yn ymateb â sensitifrwydd i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol.

Mae staff yn defnyddio ardaloedd penodol ac adnoddau pwrpasol i annog disgyblion i ymlacio ac ymdawelu cyn dechrau dysgu. Er enghraifft, maent yn gadael i blant ddefnyddio piano a drymiau i reoli eu hemosiynau. Mae sesiynau ymyrraeth buddiol yn cefnogi lles emosiynol y disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n gelfydd at ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u boddhad wrth ddysgu.

Mae gan yr ysgol systemau perthnasol i olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Mae gan y cydlynydd ADY brosesau trylwyr i adnabod anghenion lles ac addysgol disgyblion. O ganlyniad i gynllunio'r ddarpariaeth yn effeithlon, mae disgyblion yn cael cefnogaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn effeithiol.

Mae staff yn gweithio'n synhwyrol gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol i greu cynlluniau cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY. Caiff y cymorth hwn, ynghyd â chyfathrebu'n rheolaidd â rhieni, effaith gadarnhaol ar les a chynnydd y disgyblion. Mae staff, ar y cyd ag asiantaethau, yn darparu cymorth arbenigol i rieni drwy sesiynau buddiol er mwyn eu cynghori ar agweddau o ddatblygiad plant a medrau bywyd. Mae hyn yn cryfhau'r berthynas glòs rhwng yr ysgol a'r cartref ac yn cael effaith gadarnhaol ar y cydweithio a'r cyswllt er budd y teulu a'r plentyn.

Mae staff yn hybu pwysigrwydd bwyta'n iach ac annog ffitrwydd corfforol drwy amrediad o weithgareddau addysg gorfforol. Mae'r meysydd chwarae eang yn

caniatáu i staff drefnu a darparu ystod o weithgareddau awyr agored sy'n cyfrannu'n addas at ddysgu, lles a mwynhad disgyblion. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw ac o bwysigrwydd cadw'n heini yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion leisio barn er mwyn cyfrannu at eu dysgu ac at fywyd yr ysgol. Mae gwaith y cynghorau disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau ysgol gyfan. Er enghraifft, mae'r 'Swyddogion Heddwch a Lles' yn rhannu negeseuon pwysig â'u cyfoedion ar faterion fel gwrth-hiliaeth ac ewyllys da. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau arwain y disgyblion ac yn eu paratoi'n dda i gymryd cyfrifoldeb dros eu penderfyniadau ac i ystyried safbwyntiau eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi barn am eu dysgu drwy gynllunio ar gyfer eu themâu. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn trefnu taith gerdded er mwyn iddynt ddysgu am eu cynefin a chreu ffeil ffeithiau ar nodweddion yr ardal.

Mae'r staff yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymreig yn effeithiol. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu eu medrau mynegiannol ac arddel diwylliant a hanes Cymru yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn astudio gwaith Cymry enwog fel yr Esgob William Morgan a Mari Jones ac yn efelychu gwaith awduron ac artistiaid Cymreig yn dda. Mae hyn yn datblygu medrau creadigol a hunanhyder disgyblion yn llwyddiannus, ac yn cyfrannu at feithrin parch a balchder disgyblion at eu cenedligrwydd yn fwriadus.

Mae'r trefniadau addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i gefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. Mae hawliau plant yn rhan gyson o wasanaethau'r ysgol. Mae staff yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar faterion cyfoes a gwahanol grefyddau a diwylliannau mewn gweithgareddau, fel dathliadau Ramadan, Eid a Diwali.

Mae prosesau'r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb yn effeithiol. Mae staff yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd i wella presenoldeb disgyblion. Mae'r staff yn deall eu rolau'n dda wrth gadw disgyblion yn ddiogel a chynnal ethos cynhwysol yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn briodol ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, daeth yr arolygwyr â mater penodol yn ymwneud â diogelwch safle'r ysgol i sylw arweinwyr yr ysgol yn ystod yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn gosod lles a gofal disgyblion wrth wraidd ei gweledigaeth. Mae'n sicrhau bod llais disgyblion wrth galon yr athroniaeth synhwyrol hon. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi ei hymrwymiad ac mae staff yn gweithredu'n dda ar ddisgwyliadau arweinwyr.

Mae'r pennaeth yn annog staff i fodelu gwerthoedd cadarn. Maent wedi'u seilio'n bwrpasol ar ethos cefnogol, sy'n anelu at fod o fudd i gymuned yr ysgol a bywydau'r disgyblion a'u teuluoedd. Mae'n cymell disgyblion i fanteisio ar y profiadau sydd ar gael iddynt ac i chwarae rhan allweddol ym mhenderfyniadau'r ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod awyrgylch gynhwysol yn treiddio trwy'r ysgol, sy'n cymell disgyblion i fwynhau eu dysgu.

Mae arweinwyr yn creu awyrgylch ddymunol ymysg y staff a’r disgyblion. O ganlyniad, mae staff a’r disgyblion yn dathlu arwyddair yr ysgol: ‘Plant hapus sy’n dysgu’, ac yn gweithredu’n gydwybodol ar ddatblygu meddylfryd cadarnhaol ar draws yr ysgol. Mae eu cymhellion clir yn creu ethos o gydweithio brwdfrydig, sy’n cael effaith bwrpasol ar agweddau’r disgyblion at ddysgu.

Mae arweinwyr yn dyrannu cyfrifoldebau’n dda ac mae’r pennaeth yn dwyn staff i gyfrif yn synhwyrol am ansawdd ac effaith eu gwaith. Mae prosesau’r arweinwyr i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn drefnus ac wedi’i seilio ar ystod eang o dystiolaeth ddibynadwy. Mae’r systemau effeithlon yn cynnwys craffu ar lyfrau disgyblion a gwerthuso cynnydd a datblygiad y disgyblion yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys mynd i’r afael â gwella’r arferion asesu a thracio cynnydd disgyblion. Yn ogystal, mae arweinwyr yn casglu safbwyntiau rhanddeiliaid eraill yn dda i lywio eu harferion. Er enghraifft, maent yn ystyried safbwyntiau rhieni ac yn gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau’n ddoeth, fel cyfathrebu’n gyson trwy ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Mae gwerthusiadau ac adolygiadau rheolaidd gan y pennaeth a'r corff llywodraethol yn creu darlun clir i arweinwyr o gryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w gwella. Mae'r cyswllt rhwng y gweithgareddau hunanwerthuso a’r blaenoriaethau yn effeithiol. Mae arweinwyr yn defnyddio eu canfyddiadau’n bwrpasol ac yn gosod targedau dilys i wella arferion yr ysgol. Mae arweinwyr yn rhannu diwylliant diogelu’r ysgol gyda’r holl staff yn briodol, sy’n cynnwys asesiadau risg a gwiriadau rheolaidd ar gyfarpar.

Mae arweinwyr yn cadw mewn cysylltiad agos â chymuned ehangach yr ysgol. Maent yn adeiladu ar y perthnasoedd da sy’n bodoli â rhieni ac maent yn darparu hyfforddiant perthnasol iddynt fel cyrsiau coginio a sesiynau rhianta. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod disgyblion yn bwyta ac yfed yn iach, ac yn cynghori rhieni ar bwysigrwydd bwyd maethlon yn eu bocsys cinio.

Mae arweinwyr yn annog staff i wneud defnydd da o’r adeilad ac yn caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio ardaloedd cymorth, fel ‘Y Llecyn’, yn effeithiol. Fodd bynnag, mae diffyg yn y ddarpariaeth a’r defnydd o adnoddau ar gyfer disgyblion yn yr ardaloedd allanol yn llesteirio eu profiadau dysgu a’r cyfleoedd i gyfoethogi eu medrau ymhellach.

Mae llywodraethwyr yn wybodus ac mae eu mewnbwn cadarnhaol yn creu gwelliannau bwriadus ar draws yr ysgol. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o weithgareddau'r ysgol trwy deithiau dysgu a thrafod gwaith disgyblion ochr yn ochr â'r athrawon. Maent yn gefnogol iawn i'r pennaeth ac yn cydweithio â hi a'r staff yn synhwyrol, gan gwestiynu effaith eu gwaith mewn modd synhwyrol. Mae'r pennaeth yn eu cynghori'n ddibynadwy ac yn onest ar sut i wella'r ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys yr angen i herio disgyblion i ddefnyddio rhifedd yn well mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn a datblygu medrau digidol disgyblion ymhellach.

Mae llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Maent yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwelliant, fel buddsoddiadau mewn staff a hyfforddiant pwrpasol. Mae arweinwyr yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn dda i gefnogi ymyraethau penodol, sy’n darparu cymorth buddiol i ddisgyblion wella’r cynnydd yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn rhannu arfer dda ag ysgolion y dalgylch ac mae hyn yn cefnogi gallu'r ysgol i wella'n barhaus. Mae’n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i athrawon gymharu a rhannu eu heffeithiolrwydd â gweithwyr proffesiynol eraill. O ganlyniad, mae'r staff yn cael cyfleoedd cynhyrchiol, sy'n datblygu eu gwybodaeth broffesiynol a'u medrau arwain. Mae'r diwylliant hwn o ddysgu proffesiynol parhaus yn creu darpariaeth ofalgar, sydd yn ei dro yn arwain at ddisgyblion sy’n cyflawni’n dda o'u mannau cychwyn.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/08/2024